

## DIOLCH CYFFREDINOL

---

### GWEDDI

Diolch i Ti Arglwydd:

-am y dorth nad oes rhaid ei thyfino,  
-yr un nad oes rhaid ei phobi,  
-y dorth nas gwelir mohoni ar silff y siop  
na chwaith ar fwrdd y gegin i'n digoni dros dro.

Diolch i Ti:

-am y bara na ellir ei brynu.  
Nid 'ein bara beunyddiol'  
ond y bara sy'n para byth.  
-Y bywd bywiol sy'n Fara'r Bywyd.  
-Bara cofio bwrdd y cymun  
a dorri trosom a ninnau'n annheilwng o'r briwsion  
sy'n syrthio oddi ar y bwrdd.

Diolch am eiriau Iesu,

'Myfi yw Bara'r Bywyd.' Amen.

*Gareth Maelor, Ystyriwch y Lili*

### DIOLCHWN I TI

Diolchwn i Ti

Am anadl yn y ffroen bob bore  
Pan ddihuno'r corff o drwmwsg y nos.

Diolch i Ti

Am y dwrn ar dalcen y drws,  
Neu dinc cynnar y gloch  
Pan estynno'r postman y llythyr  
I'n llawenhau;

Diolchwn i Ti

Am wyrth y radio a'r teledu  
Sy'n hebrwng y byd eang i'n haelwyd;

Ac am y bachgen-ysgol a gododd yn gynnar  
I chwibanu ei ffordd drwy'r cyfddydd  
O dŷ i dŷ  
I ollwng papur newydd a'r cylchgrawn  
Yn drystfawr trwy'r drws.

Diolchwn i Ti

Am y meddyg a ffiol ei ffisig,  
Am y siopwr sy â'i silffoedd yn gymen a'i glorian yn gytbwys,  
Am ferched sy â'u bysedd buain ar ddawns dros wyddor y teipiadur;  
Am feibion crefft i drwsio a llunio â llaw  
Am ysgubwr y ffordd, ac ysgwyddwr llychlyd y biniau,  
Am bawb sy'n barod i gyflawni'r beunyddiol bethau dibwys . . .

**Maurice Loader, *Taro'r Sul***

## **GWEDDI O DDIOLCHGARWCH**

O Arglwydd ein Duw, Crëwr a Lluniwr popeth; Tydi yw ffynhonnell bywyd a'i gynhaliaeth. Diolchwn i Ti am dir ffrwythlon.

Diolchwn i Ti am grefft yr amaethwr, yr hwn sydd yn trin y tir, yn hau yr had ac yn medi'r cynhaeaf.

Gwyn fyd y neb o'i febyd – fu'n gymar  
I'r ddaear werdd ddiwyd.  
Y gŵr a arddo'r gweryd;  
A heuo faes, gwyn ei fyd.

Diolchwn i Ti am y dydd arbennig hwn i gofio mai Ti, Arglwydd, sydd yn rhoi twf i'r had ac aeddfedrwydd i'r grawn. Deisyfwn dy fendith ar waith yr amaethwr am y dibynnwn gymaint arno am fwyd a chynhaliaeth.

O Arglwydd ein Duw, Crëwr a Lluniwr popeth, Tydi yw ffynhonnell bywyd a'i gynhaliaeth. Diolchwn i Ti am y golud sydd yn y graig ac yn y ddaear. Diolchwn i Ti am y glöwr sydd yn trin y glo yn nhywyllwch y ddaear, gan sicrhau i ni aelwydydd diddos a chynnes.

Caner a rhodder iddo – glod dibrin  
 Y werin a'i caro.  
 Nydder y mawl a haeddo  
 I arwr glew erwau'r glo.

Diolchwn i Ti am grefft y chwarelwr a'r saer maen, y rhai sydd yn sicrhau cartrefi ac aelwydydd cyfforddus ar ein cyfer. Diolchwn i Ti am yr orig hon i gofio mai Ti, Arglwydd, sydd yn darparu o hyd at raid dynol-ryw. Deisyfwn dy fendith ar bob crefftwr yn ei waith, am y dibynnwn gymaint arnynt yn hwyluso ein bywyd ar y ddaear.

O Arglwydd ein Duw, Crëwr a Lluniwr popeth, Tydi yw ffynhonnell bywyd a'i gynhaliaeth. Diolchwn i Ti am waith y gwyddonydd yn dyfeisio ac yn cynllunio peiriannau ar gyfer dyn yn ei waith ac yn ei gartref. Diolchwn i Ti am ddawn a thalent o eiddo'r gwyddonydd, a ddefnyddir er lles dyn a gogoniant i'th enw Di. Diolchwn i Ti am addysg a gwybodaeth, celfyddyd a chrefft, diddordebau a mwyniant creadigol a'r holl bethau hynny sydd yn cyfoethogi'n bywyd. Dyro, O Arglwydd, dy fendith ar ddiwylliant dyn, gan ein dysgu i'w ddefnyddio yn ddoeth ac anhunanol.

Trwy bob gwybodaeth newydd,  
 Gwna ni'n fwy doeth i fyw;  
 A gwisg ni oll ag awydd  
 Gwasnaethu dynol-ryw.

Bendithia ddyn yn ei holl weithgarwch, fel y byddo'r cyfan yn gyfrwng mawl i Ti a lledaeniad yr efengyl. Yn enw Iesu Grist ein Gwaredwr, Amen.

O Arglwydd bywyd,  
 yn ein mawl, yn ein gwaith, ac yn ein hamdden;  
 gwrando'n cri.  
 O Arglwydd, ein cynhaliwr mawr;  
 Cofia'r newynog a'r anghenus, y digynhaliaeth a'r diymgeledd.  
 O Arglwydd ein bugail mawr,

Yng nghanrif y ffoaduriaid a'r bobl ddigartref,  
 Fforestydd ohonynt, di-bridd a diwreiddia:  
 A wnei Di gofio am y rhain, y Bugail di-obennydd?  
 Am y di-gorlan a'r di-gynefin breiddiau.

O Arglwydd, ein barnwr cyfiawn,  
Cofia'r difreintiedig, y tlawd, y rhai isel-radd a'r rhai sy'n  
newynu am gyfiawnder.

O Arglwydd pob cenedl a lliw,  
Cofia'r tywyll ei groen yn ei frwydr am ei hawliau a'i ryddid.  
Yn wyneb yr anghyfiawnder sydd yn ein byd,  
Gwna ni yn gyfryngau bywiol ac achubol,  
yn Ysbryd anhunanol efengyl Iesu Grist.  
Bydded i ras ein Harglwydd Iesu Grist . . . Amen.

**Harri Parri a D Ben Rees, *Llyfr Gwasanaeth Ieuencid***

## **DIOLCHGARWCH**

Arglwydd, agor ein llygaid i ganfod dy ddaioni,  
a'n genau i ganu dy glod.

Planna ynom yr ysbryd diolchgar hwnnw  
sy'n gweddu i rai sy'n ymddiried ynot.

Bydd drugarog wrthym a maddau i ni –  
y dallineb sy'n ein hatal rhag gwerthfawrogi dy roddion;  
y diofalwch sy'n peri i ni eu camddefnyddio;  
yr ysbryd hunanol sy'n ein gwneud yn drachwantus  
yn ein defnydd ohonynt.

Glanha ni o'n beiau  
a chymorth ni, mewn llawenydd a gostyngeiddrwydd,  
i offrymu iti ein mawl a'n diolch.

O Dduw ein Tad a'n Harglwydd,  
diolchwn i ti am y cyfan a greaist  
ac am y cyfan a gyfrennaist i ni dy blant.  
Yr wyt wedi llenwi ein bywyd â phrydferthwch a daioni,  
ac wedi'n hamgylchynu â phethau hardd a defnyddiol.

Diolchwn i ti am dy gread:  
am odidowgrwydd yn byd o'n cwmpas;

am ogoniant y bryniau a'r dyffrynnoedd,  
yr afonydd a'r moroedd,  
y meysydd a'r blodau.

Yn ysblander a chyfoeth dy greadigaeth  
gwelwn dystiolaeth i ryfeddod dy waith  
yn ein cynnal, ein cadw a'n cyfoethogi.

Diolchwn i ti am dy ofal tadol:  
am gynhaliaeth a bendithion bywyd beunyddiol;  
am iechyd a nerth;  
am serchiadau a chyfeillgarwch.

Yn holl fendithio bywyd yr wyt yn rhoi i ni lawenydd,  
ac yn nhreialon bywyd yr wyt yn ein dysgu i ymddiried ynot.

Diolchwn i ti am dy arweiniad:  
am dy ffyddlondeb i ni bob amser;  
am i ti ein harwain a'n nerthu ar hyd llwybrau bywyd;  
am i ti fod yn oleuni i ni ymhob tywyllwch  
ac yn gynhaliaeth ymhob argyfwng.  
Mewn hawddfyd ac mewn adfyd buost wrth law bob amser  
i'n tywys a'n hymgeleddu.

Diolchwn i ti am rasmusau'r efengyl:  
am dy gariad anfeidrol yn Iesu Grist;  
am bob mesur o'th wirionedd a ddysgaist i ni;  
am foddion gras a chymdeithas dy bobl;  
am faddeuant pechodau ac am obaith gogoniant.

Rhoddaist i ni'r holl fendithion dirifedi hyn  
i wneud ein dyddiau yn hardd ac yn llawen.

Cynorthwya ni i ymateb gyda diolchgarwch  
nad yw'n bodloni ar eiriau yn unig,  
ond sy'n mynegi ei hun mewn ymgysgriad  
i ti ac i waith dy deyrnas.

Cyflwynwn i ti y rhai sy'n methu diolch heddiw  
a'r rhai sy'n amau dy ragluniaeth a'th ofal.

Bydd yn gymorth ac yn ddidanwch  
i'r rhai sydd mewn adfyd a thrallod,  
mewn galar a thristwch,  
mewn afiechyd a llesgedd,  
mewn unigrwydd ac anobaith.

Tro eu tywyllwch yn oleuni  
a'u gofid yn gysur.

Clyw ein hymbiliau ar eu rhan,  
a gwna ninnau bob amser yn fwy diolchgar  
am ein dedwyddwch a'n hiechyd.

Cyflwynwn ein moliant a'n hymbiliau  
yn enw ein Harglwydd a'n Gwaredwr, Iesu Grist. Amen.

**Elfed ap Nefydd Roberts, *O Fewn ei Byrth***

## **DIOLCH AM BOPETH**

Diolchwn i ti am bopeth sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw,  
am gadernid cyfeillgarwch, a chymdogaeth dda,  
am gwllwm sefydlog perthynas a gwaed,  
am gariad mab a merch, a phrofedig gariad gŵr a gwraig,  
am y rhodd o blentyn bach, ac am osod yr unig mewn teulu:

*Diolchwn i ti, ein Tad.*

Diolchwn i ti am bopeth sy'n codi ein meddyliau uwch ffiniau'r byd gweledig.  
Am lyfrau da, a ffrwyth myfyrdodau mawr, am farddoniaeth i'n cynhyrfu a'n  
deffro, ac i aros yn drysor yn y cof. Am faes llafur ac am faes llawenydd. Am  
fiwsig a rydd adenydd i'n dychymyg, am gelfyddyd darluniau a cherfiadau a  
fydd yn cadw inni un foment o harddwch yn fythol hyfrydwch. Am bob  
tragwyddoli a fu ar y diflanedig, am rym gwirionedd a phrydferthwch, a  
phob gogoniant a luniodd dwylo dyn:

*Diolchwn i ti, ein Tad.*

Diolchwn i ti am y sicrwydd sydd gennym nad y byd hwn yw diwedd y daith: fod gennyt drefn lle'r atebir rywbyrd ein holl gwestiynau, lle mae'r pethau y gobeithiwn amdanynt yn ffeithiau, lle cyfannir yr hyn a ddrylliwyd, ac y ceir yr hyn a gollwyd, ac y gwelir yr hyn a guddiwyd rhagom dros dro:

*Diolchwn i ti, ein Tad.*

Uwchlaw popeth, diolchwn i ti am ein Harglwydd Iesu Grist, ein gwynfydedig Waredwr, yr hwn a fu farw, ac sydd yn fyw yn oes oesoedd, yr hwn sydd ar dy ddeheulaw yn eiriol drosom. Diolchwn i ti am ddigonolrwydd ei gariad, a chyfoeth dihyssydd ei drugaredd, a bythol ddaioni ei faddeuant.

Clyw ein gweddi o ddiolchgarwch yn ei enw ef, ac iddo ef y byddo'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

**Brynley Roberts, *Cynnal Oedfa***

## **RHYFEDDODAU'R CREAD**

Plygwn ger dy fron, Arglwydd ein Duw,  
i'th gydnabod fel crëwr a chynhaliwr pob peth:  
eiddot ti'r bydysawd enfawr,  
oherwydd tydi sydd wedi ei alw i fodolaeth trwy dy air nerthol;  
tydi sydd wedi ei gynnal trwy ganrifoedd dirifedi.  
Diolchwn i ti fod gwaith ein gwyddonwyr  
yn ein cynorthwyo i sylweddoli  
pa mor fawr a chymhleth yw'r bydysawd:  
teithia'r sêr a'r planedau trwy'r gofod enfawr  
ar hyd llwybrau a ordeiniaist ti.  
Ac nid llai rhyfeddodau'r bychanfyd  
ym mhatriau modrwyog yr atom a'r moleciwl.  
Diolchwn i ti am y cread:  
dysg ni ynghanol yr ysbeilio a'r difrodi sydd arno  
i'w weld fel rhodd odidog a gyflwyniaist inni.  
A diolchwn i ti fod yr Arglwydd Iesu yntau  
wedi cyfrannu at dy waith creadigol,

a'i fod yn ystod ei weinidogaeth ar y ddaear  
wedi dangos fod grymusterau natur o dan ei law:  
y fath gysur i ni yw gwybod fod y Gwardwr  
hefyd yn Arglwydd y cread,  
a bod y dwylo a ddioddefodd yr hoelion dŵr  
hefyd yn dal awenau'r cread.  
Clod bythol i ti, O Dduw.

**Elfed ap Nefydd Roberts, *Amser i Dduw***

## **BORE**

O! Arglwydd a Gwneuthurwr pob dim, drwy allu creadigol yr Hwn y daeth y  
goleuni cyntaf, a'r Hwn a edrychaist ar fore cyntaf y byd ac a welaist mai da  
oedd, molaf Di am goleuni sy'n llifo ataf drwy fy ffenestri yn awr ac yn fy  
nihuno i fywyd diwrnod arall.

Molaf Di am y bywyd sy'n ennyn o'm mewn:  
Molaf Di am y byd cain a phrydferth yr af iddo:  
Molaf Di am dir a môr a ffurfafen,  
am gwmwl a yrrir gan wynt ac am gân aderyn:  
Molaf Di am y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur:  
Molaf Di am ddiddordebau f'oriau hamdden:  
Molaf Di am fy nghyfeillion:  
Molaf Di am fiwsig a llyfrau a chwmni da  
a phob pleser glân.

Tydi yr Hwn y pery dy drugaredd yn dragywydd, rho i mi heddiw galon  
dyner tuag at y rhai y mae goleuni'r bore yn dwyn iddynt lai o lawenydd nag  
a ddwg i mi:

Y rhai y mae curiad bywyd ynddynt yn llesgáu:  
Y rhai y gorfydd arnynt orwedd ar wely drwy'r oriau heulog:  
Y dall, na welant olau dydd:  
Y rhai sy'n gor-weithio heb brofi mwynhad hamdden:  
Y di-waith, na chânt y mwynhad sydd mewn llafur:  
Y galarus, sydd a'u calonnau a'u cartrefi'n wag:  
Gwêl yn dda estyn dy drugaredd iddynt oll.

O! Oleuni nad yw fyth yn pallu, megis y ffrydia goleuni'r dydd drwy'r ffenestri hyn a llenwi'r ystafell, gad i mi agor ffenestri fy nghalon i Ti, fel y goleuer fy holl fywyd â disgleirdeb dy bresenoldeb. Na foed un gorwel o'm henaid heb ei oleuo â llewyrch dy wynep-pryd.

Na foed dim ynof i gymylu sirioldeb y dydd. Boed i Ysbryd yr Hwn sydd yn oleuni dynion deyrnasu yn fy nghalon hyd yr hwyr. Amen.

## HWYR

Yn Awr, O! Arglwydd, ar derfyn dydd o waith, trof atat Ti unwaith eto. Oddi wrthyt Ti y daw pob peth, ynot Ti y mae pob peth yn byw, ac ynot Ti y mae diwedd pob peth. Euthum allan yn y bore gyda'th fendith, cynheliaist fi drwy'r dydd â'th ras, ac yn awr gweddiaf am i Ti roi i mi orffwys a thangnefedd. Bwriaf fy holl ofalon arnat a gadawaf ffrwyth fy llafur i Ti. Llwydda, 'rwy'n deisyf arnat, bopeth a wnaed heddiw yn unol a'th ewyllys, a maddau yr hyn a wnaed ar fai. Pa ddaioni bynnag a wneuthum heddiw, arddel a llwydda hynny yn ôl dy ras; ac os gwneuthum unrhyw niwed, goruwchlywodraetha hynny a'i ddileu drwy dy allu anfeidrol.

O! Arglwydd, cofiaf o'th flaen holl weithwyr y byd:  
 Gweithwyr â'u llaw ac â'u hymennydd:  
 Gweithwyr yn y dinasoedd ac yn y meysydd:  
 Dynion sy'n mynd allan i'w gwaith a merched sy'n cadw tŷ:  
 Meistri gwaith a'u gweithwyr:  
 Y rhai sy'n gorchymyn a'r rhai sy'n ufuddhau:  
 Y rhai y mae eu gwaith yn beryglus:  
 Y rhai y mae eu gwaith yn undonog neu'n frwnt:  
 Y rhai sy'n meth cael gwaith:  
 Y rhai sy'n gweithio yng ngwasanaeth y tlawd neu iachâd y cleifion, neu sy'n cyhoeddi efengyl Crist gartref neu mewn gwledydd estron.

O! Grist, a ddaethost nid i gael dy wasanaethu ond i wasanaethu, cymer drugaredd ar bawb sy'n llafurio'n ffyddlon er lles dynolryw.

O! Grist, a borthaist y miloedd â thorthau a physgod, cymer drugaredd ar bawb sy'n llafurio i ennill eu bara beunyddiol.

O! Grist, a elwaist atat dy Hun bawb sy'n flinderog ac yn llwythog, cymer drugaredd ar y rhai y mae eu gwaith tu hwnt i'w nerth. Ac i Ti, gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, y byddo'r holl ogoniant a'r clod. Amen.

## **BORE**

O! Dduw bendigaid, yr Hwn a roddaist i mi'r nos i orffwys a'r dydd i weithio ac i wasanaethu, caniatâ i'r hun adfywiol a gefais neithiwr gael ei defnyddio heddiw i fawrhau dy ogoniant ym mywyd y dydd hwn sydd o'm blaen.

Na ad iddo fagu diogi ynof, ond yn hytrach fy nanfon i weithredu'n fwy diwyd ac i ufuddhau'n fwy ewyllysgar.

Dysg fi, O! Dduw, i ddefnyddio holl amgylehiadau fy mywyd heddiw i feithrin ynof ffrwythau sancteidrwydd yn hytrach na ffrwythau pechod.

Gad i mi ddefnyddio siom i feithrin amynedd:

Gad i mi ddefnyddio llwydd i feithrin diolchgarwch:

Gad i mi ddefnyddio pryder i feithrin dyfalbarhad:

Gad i mi ddefnyddio perygl i feithrin gwroldeb:

Gad i mi ddefnyddio cerydd i feithrin hirymaros:

Gad i mi ddefnyddio clod i feithrin gwyleidd-dra:

Gad i mi ddefnyddio pleserau i feithrin cymedroldeb:

Gad i mi ddefnyddio poenau i feithrin dygnwch.

O! Arglwydd Iesu Grist, yr Hwn er mwyn y llawenydd oedd o'th flaen a oddefaist y Groes heb ddiffygio, gan ddiystyru'r gwarth, ac wyt yn awr yn eistedd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw, gad i mi feddwl amdanat yn goddef y fath elyniaeth tuag atat gan bechaduriaid, rhag i mi flino a digalonni.

*Drwy'r llafur fe ddoi di  
Yn eiddo im ryw ddydd, -  
A'r gofid, ei ben draw  
Gerllaw fy ngorsedd fydd.*

Sanctaidd Dduw, cofiaf ger dy fron fy holl gyfeillion ac aelodau fy nheulu, yn enwedig ..... a ....., gan ddeisyf arnat yn dy gariad mawr eu cadw'n rhydd o afael pechod a rheoli eu gweithredoedd heddiw yn unol â'th ewylllys berffaith. Amen.

## **BORE**

Ysbryd creadigol, sy'n ymsymud yn dragywydd dros diroedd a moroedd y ddaear, gan eu cynysgaeddu â ffurfiau a lliwiau na fedr crefft un dyn eu hefelychu, dyro i mi heddiw, 'rwy'n deisyf arnat, feddwl a chalon i lawenyachu yn dy gread.

Gwared fi rhag i mi gerdded drwy dy fyd prydferth heb lygaid i weled:

Gwared fi rhag i atyniad y farchnad un amser ddwyn fy nghalon yn llwyr rhag hoffi'r eriau agored a'r coedydd gwyrddion:

Gwared fi, pan f'wyf dan do gweithdy neu swyddfa neu fyfyrgerll, rhag anghofio bwa dy ffurfafen Di uwch fy mhen:

Gwared fi, pan fo dy holl greaduriaid yn cyfarch y bore â chân a bloedd o lawenydd, rhag i mi yn unig wisgo wyneb blin a sarrug:

Boed i'r grym a'r egni y gwelaist Ti'n dda yn dy ddoethineb hydreiddio popeth byw ag ef, gyffroi ynof finnau heddiw, fel na bwyf ymysg dy greaduriaid fel gwenynen ddiog:

Ac uwchlaw pob dim dyro imi ras i ddefnyddio harddwch daear o'm cwmpas a dygyfor bywyd o'm mewn yn gyfrwng i ddyrchafu f'enaid oddi wrth y creadur at y Creawdwr, ac oddi wrth natur at Dduw natur.

Tydi yr Hwn y mae dy dynerwch dwyfol yn ehangachac yn lletach na mesurau meddwl dyn, rho imi galon dyner a charedig tuag at bopeth byw. Na ad i mi beri poen creulon i unrhyw un o’th greaduriaid. Boed imi ofalu am les plant bach, a’r rhai sy’n wael ac yn dlawd; gan gofio, beth bynnag a wnaif i’r lleiaf un o’i frodyr, fe’i gwnaf i Iesu Grist fy Arglwydd. Amen.

**Trebor Lloyd Evans, *Bore a Hwyr Gweddiâu Personol***

## **FFYNHONNELL POB SANCTEIDDRWYDD A GRAS**

Hollalluog Dduw, Dad trugarog,  
ffynhonnell pob sancteiddrwydd a gras,  
diolchwn i ti am dy ddaioni a’th gariad diderfyn  
tuag atom ni a’r greadigaeth gyfan.

Diolchwn i ti am ein creu a’n cynnal  
a’n hamgylchynu â’th fendithion;  
ond o’th holl roddion,  
diolchwn fwyaf am i ti yn dy gariad,  
sydd tu hwnt i’n gallu i’w fynegi,  
roi dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist,  
i adfer ac iacháu dynolryw.

Molwn di, Dad,  
am holl sianelau dy ras,  
ac am y gobaith o rannu dy ogoniant.

Goleua ein calonnau a’n meddyliau  
a dangos i ni fawredd dy gariad,  
fel y byddwn yn ddidwyll yn ein diolchgarwch;  
nid yn unig â mawl ein gwefusau  
ond gydag offrymiad ein bywydau,  
yn ymroddedig ac yn gyfiawn yn dy wasanaeth.

Gofynnwn hyn i gyd trwy Iesu Grist ein Harglwydd,  
gyda thi a’r Ysbryd Glân,  
un Duw yn awr a thros byth. Aleliwia.

**Elfed ap Nefydd Roberts, *Amser i Dduw***

## GWELD O'R NEWYDD

Dyro inni weld o'r newydd  
Mai Ti, Arglwydd, yw ein rhan.

Ti, ein Tad, a welodd yn dda greu'r byd a'n creu ninnau, ac a ddangosodd dy gariad tuag atom trwy Iesu Grist, rhoddaist inni'r gallu i weld – i weld y dydd a'r nos, i weld ceraint a chydabod, ac i weld yr holl amrywiaeth rhyfeddol sydd yn y bydysawd.

Agor ein llygaid i ryfeddod yr hyn a welwn.

Creaist ddyn mor rhyfeddol o gywrain –  
yn feddwl a chorff ac ysbryd: yn enaid byw.  
Creaist fydsawd rhyfeddol ei wneuthuriad a chywrain iawn ei ddeddfau.  
Diolchwn am y wefr a rydd dy greadigaethau inni.  
Wrth inni eu gweld, agor ein llygaid i ogoniant eu Crëwr.

Cyflwynwn i'th sylw y rhai hynny yn ein plith na chawsant  
mo'r ddawn hon erioed, a'r rhai sydd wedi ei cholli.

Ein Tad, rhoddaist inni'r gallu i weld y da ac i weld y drwg,  
ac i wahaniaethu rhyngddynt.  
Maddau am ein bod mor barod i weld y gwael a'r hagr – am  
na fynwn weld, 'dan drueni dyn, ei fri.'

Diolchwn i Ti am y wefr a gawn o weld hunanaberth drud rhai o'th blant,  
ac am yr ysbrydoliaeth a rydd hynny inni.  
Agor ein llygaid i weld ein cyd-ddyn fel yr wyt Ti'n ei weld.

Ein Tad, rhoddaist i'r distadlaf y gallu i weld – gweld mewn gwirionedd:  
gweld y Bywyd sy'n gwefreiddio bod, y Crist sy'n cuddio yn y cread, yr  
Ysbryd sy'n sbardun byw.  
Diolch i ti am y fflach o weld sy'n wefr ac yn fodd i fyw.  
Maddau inni fod disgleirdeb materoliaeth yn ein dallu i noethni'r Crist a  
ogoneddwyd ar Galfaria.

O agor fy llygaid i weled  
Dirgelwch dy arfaeth a'th air. Er mwyn Iesu Grist. Amen

## **DIM OND DIOLCH.**

Diolch i Ti, Arglwydd da,  
Am bob rhodd a gefais gennyt:  
Am fedru gweld a chlywed, a mwynhau dy roddion hael:  
Am gartref bwyd a dillad:  
Am swyn a chysur y pethau cyffredin a syml sydd o'm cwmpas o hyd.

Diolch  
Am rieni da a theulu dedwydd a chariad anwyliaid hoff:  
Am y gallu i feddwl ac i siarad a chyfnwid fy meddwl a'm barn ag eraill.

Diolch  
Am y gymdeithas y cefais fy magu ynddi:  
Am fy etifeddiaeth o'r gorffennol:  
Am fedru mwynhau'r presennol:  
Ac edrych ymlaen yn hyderus i'r dyfodol ar sail dy addewidion Di.

Diolch  
Am gael byw mewn byd mor gyffrous:  
Am amgylchfyd sy'n herio dychymyg, ac yn galw am ymroad  
a mentr ac ymgyflwyniad fel y byddo manteision bywyd heddiw yn fud a  
bendith i fywyd yfory.

Diolch i Ti, Arglwydd da,  
Am gael sicrwydd dy fod Ti yma gyda mi yn wastadol, ac  
am d'addewid i aros gyda mi bob cam o'r ffordd hyd ddiwedd y daith.  
Helpa fi ym mhob dim i ddangos fy niolch, nid yn unig mewn  
meddwl a gair, ond hefyd trwy weithredu yn ôl y patrwm a roddwyd imi yn  
Iesu Grist, ac er ei fwyn Ef. Amen.

## DIOLCH I TI

“Fy enaid, bendithia yr Arglwydd, a chwbl sydd ynof, ei enw sanctaidd Ef.” (Salm 103: 1.)

Y mae ysbryd diolchgar, medd un, yn ein dysgu i weld, yn ein dysgu beth i’w weld, ac yn ein dysgu i weld mwy nag a welwn – gweld y tu ôl i bob dim gariad a daioni Duw.

## BYWYD OLL YN DDIOLCH

“Yr ydym yn diolch iti, nid yn unig am roddi inni bethau da, ond hefyd am ein cadw rhag llawer drwg. Beth a dalwn i ti am dy holl ddoniau inni? ‘Dallwn ni ddim talu iti ond yn unig o’th eiddot dy Hun. Am hynny y mae’n dda gennym feddwl mai derbyn dy iachawdwriaeth a’th addoli ydyw’r diolch mwyaf cymeradwy gennyt Ti am ddoniau dy ragluniaeth. Cynorthwya bob un ohonom gan hyn i ddywedyd â’i galon: ‘Ffiol iachawdwriaeth a gymeraf, ac ar enw yr Arglwydd y galwaf, fy addunedau a dalaf i’r Arglwydd.’ Yr ydym yn teimlo oni wnawn hynny, mai ein twyllo’n hunain, a cheisio dy dwyllo Dithau y byddwn wrth ymgynnull ynghyd fel hyn.”

Diolchwn i Ti, Dad cariadlon, am gael byw mewn byd yr wyt Ti yn Dduw iddo ac yn Arglwydd gwirioneddol arno. Bywha ni â’th Ysbryd i ymddiried fwyfwy ynot Ti, y daw pob rhoddiad daionus a phob rhodd berffaith oddi wrtho.

Maddau inni ein byw anniolchgar. Mor chwannog ydym i grafangu dy fendithion heb gydnabod dy arglwyddiaeth ar ein bywyd drwyddo draw.

Maddau inni ein bod yn caru byw yn esmwyth ‘gan anghofio’r byd a’i loes.’ Cymorth ni i gofio’r byd a’i flinderau mewn bywyd diolchgar ac addolgar, gan drugarhau wrth ein gilydd a maddau i’n gilydd yn ôl dy esiampl Di yn Iesu Grist. O Dduw haelionus, gwared ni rhag bod yn grintach – rhag bod yn barotach gyda’n geiriau rhwydd na’n rhoddion hael.

Derbyniasom yn rhad, rhoddwn yn rhad.

Sancteiddia ni yn dy faddeuant, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

## **IDAD Y TRUGAREDDAU**

Dad y Trugareddau,  
Diolchwn  
I Ti am ambell funud  
Feichiog o fendith,  
Pan gofiwn yng ngofid  
A gwewyr y cymhlethdod ei cymdeithas gyfoes  
Am dy drugaredd,  
Sydd yn fwy na'th drugareddau  
I gyd efo'i gilydd.  
Diolchwn  
Am hirhoedledd dy amynedd  
Gydol ein blynyddoedd afrad;  
Diolchwn  
Am y ffrwd a dardd  
O'th gariad digymar –  
Y ffrwd a lif  
I leddfu ing a gloywi gobaith,  
Ac a ylch  
Surni a sorod pechod,  
Megis y gylch beiston  
Gregyn yn llathrwy'n ar draeth.  
Diolchwn  
Am awr anterth y gras  
A ddatguddiwyd  
Ym mhoen ar drostan.  
Diolchwn  
Am dridiau ysgarmes  
Gethsemane a Golgotha,  
Cyn toriad gwawr  
Dydd Mab y Dyn.  
Gweddiwn  
Am i'th ddaioni cyson  
Ein gwyleiddio  
Ac ennyn ynom  
Y meddwl grasol  
'Yr hwn oedd hefyd yng Nghrist Iesu.'  
Er mwyn ac er gogoniant ei Enw. Amen.

**Harri Parri a William Williams, *Ffenestri Agored***